

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 41 a 43 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig:

- Terfynu Ysgol Dolgarrog, Ffordd Llanrwst, Conwy, LL32 8QE
- Terfynu Ysgol Tal y Bont, Ffordd Conwy, Tal y Bont, Conwy, LL29 8QF
- Terfynu Ysgol Trefriw, Ffordd Llanrwst, Trefriw, Conwy, LL27 0RX
- Sefydlu Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd i'w chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar safle presennol Ysgol Dolgarrog, Ffordd Llanrwst, Conwy, LL32 8QE i fechgyn a merched 3 i 11 oed.

Mae Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw yn Ysgolion Cynradd Cymunedol Cyfrwng Cymraeg a gynhelir yn bresennol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai a ymgynghorwyd â hwy, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar wefan Gwasanaethau Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: www.conwy.gov.uk/ardalcaerhunatrefriw

Cynigir gweithredu'r cynigion ar 31ain Awst 2017.


Byddai'r dalgylchoedd presennol ar gyfer Ysgol Dolgarrog, Tal y Bont ac Ysgol Trefriw yn ymuno i greu un dalgylch ar gyfer yr ysgol newydd. Gwarantir lle i ddisgyblion sy'n bresennol yn mynychu Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw yn yr ysgol newydd. Bydd disgyblion yn cychwyn yn y derbyn hyd at flwyddyn 6 cyn parhau gyda'u haddysg uwchradd.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fydd yr awdurdod derbyn. Y rhif derbyn cyhoeddedig arfaethedig ar gyfer yr ysgol wedi'i chyfuno yw 17. Bydd grwpiau addysgu yn parhau o fewn y cyfyngiad statudol o 30 disgybl yn y dosbarthiadau babanod ac o fewn y 30 neu lai a argymhellir ar gyfer disgyblion iau. Maint yr ysgol newydd fydd 120.

Bydd cludiant ond yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, hynny yw erbyn **20fed Mawrth 2016**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Richard Ellis Owen, Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg), Gwasanaethau Addysg, Adeiladau'r Llywodraeth, Ffordd Dinerth, Bae Colwyn LL28 4UL neu e-bost School.Modernisation@conwy.gov.uk



Richard Ellis Owen
Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyddiad – 22ain Chwefror 2016

Nodyn Esboniadol

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond caiff ei gynnig fel eglurhad)

1. Mae Cyngor yn cynnig cyfuno Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw. Bydd hyn yn golygu cau'r tair ysgol ar 31ain Awst 2017 a'r ysgol gyfunedig newydd yn agor 1 Medi 2017.
2. Nodwyd y rhesymau dros y cynnig hwn yn y Ddogfen Ymgynghori a ddosbarthwyd 28ain Medi 2015.
3. Mae Gwasanaethau Addysg Conwy wedi adolygu nifer y disgyblion, cydraddoldeb mynediad at adnoddau ar gyfer disgyblion, safonau addysgol ac addaswyd i bwrpas adeiladau ysgol presennol ar draws yr Awdurdod.
4. Mae copi o Bolisi Derbyniadau a Cludiant Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gael ar wefan y Cyngor.
5. Mae'r rhybudd hwn yn nodi cychwyn cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o **22ain Chwefror hyd 20fed Mawrth 2016** ac yn nodi'r cyfeiriad ble gellir anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig
6. Mae'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynnig hwn ar www.conwy.gov.uk/ardalcaerhunatrefriw